

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# Clwstwr Datblygu Diodydd

Mae'r Clwstwr Datblygu Diodydd wedi cael ei lansio fel rhan o raglen Clwstwr Llywodraeth Cymru a chaiff ei anelu at gefnogi twf trwy gydweithio a chysylltedd diwydiannol. Mae sector diodydd Cymru, sydd werth oddeutu £596 miliwn ac sy'n cyflogi oddeutu 2,000 o bobl, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r economi, yn enwedig mewn rhannau gwledig Cymru.

Gan gwmpasu cwrw, gwin, seidr a pherai, gwirodydd, diodydd meddal, dŵr potel a diodydd cynnes, bydd y Clwstwr Diodydd yn gweithio ar draws y sectorau, gan ddod â'r gadwyn gyflenwi ehangach ynghyd â harneisio arbenigedd academaidd i ysgogi cydweithrediad a chyfleoedd pellach i dyfu.

Bydd gweithgareddau'r clwstwr yn cael eu gyrru gan yr aelodau busnes, ond byddant yn cynnwys y canlynol o bosibl:

- Mewnwelediadau i'r sector / cyfarfodydd briffio / deallusrwydd y farchnad
- Digwyddiadau rhwydweithio gyda siaradwyr arbenigol
- Teithiau astudio i ganolfannau ymchwil academaidd perthnasol neu sioeau masnach
- Paratoi ar gyfer cyfleoedd buddsoddi
- Cynyddu cynhyrchiant a pharatoi ar gyfer twf hirdymor
- Ymgysylltu masnachol
- Cyfleoedd i gydweithio mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin
- Cysylltu / cydweithio â phartneriaid ymchwil academaidd, gan gynnwys cael mynediad at gyllid ymchwil at ddiben ymchwil a datblygu hirdymor

Croesawir datganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau neu fusnesau yng nghadwyn gyflenwi ehangach y sector diodydd ac oddi wrth sefydliadau academaidd sy'n cynnig ymchwil neu sy'n datblygu sgiliau i'r diwydiant diodydd.

I gael mwy o wybodaeth am y Clwstwr Datblygu Diodydd, anfonwch neges e-bost at bwyd-food@levercliff.co.uk